ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 19eg IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Annwen Daniels
Mandy Williams-Davies
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Kevin Bladwin
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym
Rory Francis
Mari Rees
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Praesept 2017/2018
Bu trafodaeth ynglŷn ag argymhellion a wnaethpwyd ynglŷn â chyllideb ar gyfer Mwynderau i'r flwyddyn 2017/2018 gan Bwyllgor Adnoddau 18fed o Ionawr 2017.
Argymell: I gytuno gydag argymhellion Pwyllgor Adnoddau 18fed o Ionawr a'u bod yn addas ar gyfer cyllideb Mwynderau.

2. Adroddiad Caeau Chwarae
Bu i'r cynghorwyr edrych yn drylwyr ar yr adroddiadau a nodi unrhyw nam.
Argymell: I dderbyn yr adroddiadau

3. Canol y Dref
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phlannu Canol y Dref a chodwyd y syniad o osod basgedi blodau ar y colofnau goleuadau stryd sydd yn Sgwâr Diffwys a Sgwâr Rawson.
Argymell: I holi Cyngor Gwynedd os fydd yn bosib gosod basgedi blodau ar y colofnau goleuadau stryd yn Sgwâr Diffwys a Sgwâr Rawson

5. Cae Baltic
Cafwyd gwybodaeth y gobeithir cwblhau'r gwaith o ffensio'r cae cyn diwedd Mawrth.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth